**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1 ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth 23 Ionawr 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 25 Ionawr 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Chwefror 2024 Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener 2 Chwefror 2024.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Dafydd Rhys Thomas, Carwyn Jones, Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Neville Evans a Dafydd Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled Morris Jones (am ran o'r cyfarfod), Derek Owen, Dylan Rees (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)

(10:00 y. b. tan 11:45 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir –**<br><br>• **28 Tachwedd, 2023**<br>• **12 Rhagfyr, 2023** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cyllideb Refeniw Ddrafft 2024/25**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2024/25 £184.219m.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd arfaethedig o 9.78% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y GwasanaethTân, sef cyfanswm o 10.9% gan olygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,592.37.**<br>• **Cynnig yn ffurfiol bod y premiwm ar ail gartrefi'n codi o 75% i 100%.**<br>• **Bod £4.425m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clutnodedig er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2024/25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cynnig Cyllideb Refeniw cychwynnol ddrafft ar gyfer 2024/25.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Bydd y Gyllideb Refeniw yn cael ei phenderfynu arni gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2024/25**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -**<br><br>• **Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.**<br>• **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir yn Nhabl A yr adroddiad:**<br><br>**Haen 1 – pawb yn talu £75.14 y chwarter**<br>**Haen 2 – pawb yn talu 149.63 y chwarter**<br><br>• **Y taliadau Teleofal blynyddol fel yr amlinellir yn Nhabl B:**<br><br>**Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £140.00**<br>**Gwasanaethau'n unig £90.00**<br>**Costau gosod unwaith ac am byth £56.00**<br><br>• **Cyfradd o £15.95 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**<br><br>• **Gweithredu tâl o £17.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr.**<br><br>• **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlnellwyd.** |

| | |
|---|---|
| | • **Bod y ffi ar gyfer prynu gwasanaethu gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol yn cynyddu o 6.7% i £44.33 y dydd.**<br><br>• **Bod ffioedd Gofal Cartref yn cynyddu o £1.72 yr awr i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd.**<br><br>• **Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C:**<br><br>**Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.65**<br>**Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.25**<br>**Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.80** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod ffioedd a thaliadau gofal cymdeithasol di-breswyl am 2024/25 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Yn rhan o'r broses o osod cyllideb sy'n cael ei phenderfynu arni gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2024/25**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel a ganlyn –** |

| | |
|---|---|
| | **Gofal Preswyl (Oedolion) - £774.47 yr wythnos**<br>**Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) - £865.46 yr wythnos**<br>**Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £851.81 yr wythnos**<br>**Gofal Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,005.03 yr wythnos**<br><br>• **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych are eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion o'r cyllidebau cyfredol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn unol â pholisi cenedlaethol.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Rhan o osod y gyllideb sy'n cael ei phenderfynu arni gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Moderneiddio a Thrawsnewid Gweithgareddau Dydd yn Ardal Caergybi**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn –**<br><br>**Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o** |

| | |
|---|---|
| | **ran o'r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu Gweithgareddau Dydd gyda'r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu'r eiddo a throsglwyddo'r dderbynneb i'r Adran Oedolion. Sicrhau bod mesurau trosiannol i ddefnyddwyr a sicrhau bod addasiad trosiannol o'r gwasanaeth i ddefnyddwyr. Sicrhau hefyd bod adnoddau/ cyfleusterau yn y gymuned yn addas ac yn cwrdd ag anghenion unigolion.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Moderneiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Dydd yn ardal Caergybi yn unol ag amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |